# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU DYDD IAU, 27 MAI 2021

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Selwyn Griffiths, John Brynmor Hughes, Medwyn Hughes, Aled Wyn Jones, Berwyn P Jones, Huw W Jones, Dewi Roberts, John Pughe Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell a Gethin Glyn Williams

Sharon Warnes (Aelod Lleyg)

**Swyddogion:**

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan ( Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)
Alan Hughes ac Yvonne Thomas (Archwilio Cymru)
Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd John Pughe Roberts yn Gadeirydd ar gyfer y cyfnod 2021 - 22**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Medwyn Hughes yn Is Gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2021 -22**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Peredur Jenkins. Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd a gollodd ei wraig yn ddiweddar.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2021 fel rhai cywir.

## 7. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU ( CYMRU) 2021

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Monitro yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor i raglen waith drafft mewn ymateb i Ddeddfwriaeth sy'n cyflwyno newidiadau a grymoedd llywodraethiant Llywodraeth Leol yng Nghymru. Atgoffwyd yr Aelodau bod y Cyngor Llawn (Mawrth 4ydd 2021) wedi penderfynu mai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fyddai'n cadw trosolwg o'r gwaith sy'n ymateb i ddarpariaethau a gofynion y Ddeddf a'r rhaglen waith arfaethedig sydd yn ei lle i gyfarch y camau mewn modd amserol a phriodol.

Yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor o'r rhaglen waith bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn tynnu sylw at y risgiau posib ynghyd a chyfres o adroddiadau pellach i'r Cyngor, Y Cabinet, Y Pwyllgor Safonau a Phwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ynglŷn â darpariaethau'r Ddeddf a'r elfennau perthnasol. Ategwyd bod elfennau o'r gwaith eisoes ar y gweill a bod gweithgor o swyddogion wedi eu hadnabod i weithredu'r gwaith.

Yng nghyd destun y Pwyllgor Archwilio, nodwyd bod sawl newid i gyfrifoldebau'r Pwyllgor, gyda chydnabyddaieth y bydd ambell un yn bell gyrhaeddol. Rhoddwyd trosolwg cryno ar yr agweddau fydd angen eu blaenoriaethu:
- cymryd trosolwg o swyddogaethau monitro perfformiad penodol y Cyngor - bydd canllawiau yn cael ei gosod allan gan y Ddeddfwriaeth gyda threfn ffurfiol i'r broses.
- enw'r Pwyllgor – Deddf yn nodi'r angen i sefydlu Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- cadw trosolwg ar drefn gwynion y Cyngor gan sicrhau system gwynion effeithiol
- adolygu aelodaeth y Pwyllgor Archwilio erbyn Mai 2022 - bydd yr aelodaeth yn gwedd newid y Pwyllgor yn ei gyfanrwydd ac amlygwyd yr angen i gynnal trafodaeth fanwl ynglŷn â goblygiadau llywodraethiant y Pwyllgor.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â swyddogaeth y Pwyllgor dros drefniadau cwynion ac os byddai hyn yn gwneud y broses yn haws i unigolion gyflwyno cwynion, nodwyd mai sicrhau bod y drefn a pherfformiad y drefn honno yn gweithio fydd cyfrifoldeb y Pwyllgor. Mewn ymateb, mynegwyd bod y Pwyllgor Safonau eisoes yn edrych ar y broses gwynion ac y byddai cael dau bwyllgor yn rhoi trosolwg yn dyblygu'r gwaith. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro bod y ddau bwyllgor yn ddwy gyfundrefn wahanol - monitro cwynion o'r côd ymddygiad yw cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau tra byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn gyfrifol am drosolwg o gwynion am wasanaethau a threfniadau corfforaethol y Cyngor.

Mewn ymateb i sylw y byddai penodi Aelodau lleyg yn anodd o ystyried agweddau megis cefndir, balans gwleidyddol, agwedd di-duedd, taliadau,

dylanwad ac addasrwydd nododd y Swyddog Monitro bod canllawiau yn cael eu paratoi i roi arweiniad ar y trefniant a derbyniwyd yr awgrym bod angen cynllunio ymlaen yn ofalus ar gyfer hyn. Awgrymwyd bydd trefn debyg i'r hyn sydd gan y Pwyllgor Safonau yn cael ei mabwysiadu, lle sefydlir Panel Cyfweld i fod yn gyfrifol am y penodiadau. O safbwynt taliadau, eglurwyd bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol eisoes yn amlygu mai tal fesul diwrnod fydd i bob aelod lleyg.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chaniatáu rhannu swyddi a sut bydd hyn yn gweithio, nododd y Swyddog Monitro bod angen cwblhau darn o waith i ystyried os yw hyn yn realistig. Pwysleisiodd yr angen am drefn briodol a thryloyw.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod cydweithio gan Brif Gynghorau yn codi amheuaeth o golli pwerau
- Bod cyflwyno Cydbwyllgorau Corfforedig (CBC) yn ymosodiad ar ddemocratiaeth
- Bod CBC yn tanseilio'r grymoedd lleol
- A fydd hawl peidio sefydlu / ymuno a CBC?

Mewn ymateb i bryderon am y CBC nodwyd bod 3 cydbwyllgor eisoes wedi ei sefydlu yn y Gogledd a bod rhaid cydymffurfio ac adeiladu fframwaith o gwmpas gofynion y Ddeddfwriaeth..

**PENDERFYNWYD**

**Cymeradwyo'r Rhaglen Waith**
**Cais am ddiweddariad i gyfarfod y Pwyllgor Hydref 2021**

## 8. SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

***Eglurwyd, ers sefydlu Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd yn 1999, bod rôl y Pwyllgor wedi esblygu i adlewyrchu'r gofynion statudol ar awdurdodau lleol yn ogystal â newidiadau yn nhrefniadau gweinyddol mewnol y Cyngor. Fel mater o drefn, bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystyried a mabwysiadu Trefniadau Gweithredu yn ei gyfarfod cyntaf o gyngor newydd ar ôl etholiad – mabwysiadwyd y fersiwn gyfredol gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6 Mehefin 2017.***

***Yn achlysurol bydd newidiadau mewn trefniadau mewnol neu ddeddfwriaeth yn golygu bod angen addasu'r Trefniadau Gweithredu. Yn dilyn cyfnod o adolygu trefniadau llywodraethu materion ariannol y Gronfa Bensiwn, cyflwynwyd addasiadau i'r Trefniadau sy'n angenrheidiol ar gyfer ymdrin â chyfrifon 2020/21 Cronfa Bensiwn Gwynedd i'r Pwyllgor eu hystyried. Amlygwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi bod yn derbyn a chymeradwyo cyfrifon Cyngor Gwynedd a Chronfa Bensiwn Gwynedd, fel rhan o'i rôl fel y "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu". Wedi ystyried y rheoliadau diweddaraf, ymddengys mai'r Pwyllgor Pensiynau yw'r corff priodol i dderbyn a chymeradwyo datganiadau o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd.***

***Tynnwyd sylw at y rheoliadau perthnasol ynghyd a'r trefniadau gweithredu drafft newydd sydd yn parhau i fod yn gyson a gofynion Mesur Llywodraeth Leol a'r Canllawiau Statudol. Tynnwyd sylw hefyd at y***

***cymalau sydd wedi eu haddasu gan bwysleisio mai fersiwn dros dro yw'r trefniant ar gyfer 2021 / 22 gan nad yw'r holl addasiadau sydd yn cael eu cyflwyno i weithgareddau'r Pwyllgor yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) wedi dod i rym eto. Ategwyd bod y trefniant arfaethedig wedi ei drafod gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau. Nodwyd bod trefniadau a phenderfyniadau sydd yn ymwneud a phensiynau yn cael eu rheoli gan y Pwyllgor Pensiynau sydd yn eu tro yn cael eu craffu yn fanwl gan y Bwrdd Pensiwn. O ganlyniad, ystyriwyd bod yr addasiad yn un synhwyrol***

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod aelodau o'r Bwrdd Pensiwn a'r Pwyllgor Pensiynau yn gefnogol i'r trefniant
- Bod y trefniant yn un i'w groesawu – yn cynnig trefn lan a chlir gyda llai o ddyblygu gwaith
- Bod y drefn yn ymddangos yn daclus
- Bod Rheolwyr proffesiynol hefyd yn cadw llygad ar y Gronfa felly digon o gefnogaeth ar gael

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn y wybodaeth**
**Cymeradwyo addasiadau i'r Trefniadau Gweithredu**

## 9. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror 2021 hyd 31 Mawrth 2021. Amlygwyd bod 4 o archwiliadau'r cynllun wedi eu cwblhau ynghyd ag archwiliad grant ôl-16.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod angen cynnal asesiad lles i weithwyr a chynghorwr sydd yn gweithio o adre
- Bod angen rhoi dewis i staff wrth i ganllawiau covid lacio yng nghyd-destun gweithio o adre
- Bod angen amserlen ar gyfer dychwelyd i'r swyddfeydd
- Bod angen cynnal asesiadau lleoliad gwaith yn y cartref
- Edmygu ymroddiad ac addasrwydd staff wrth weithio o adref

Mewn ymateb i'r sylwadau nodwyd bod asesiadau offer gwaith wedi eu cwblhau a bod Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar brosiect asesu addasrwydd swyddi. Ategwyd nad oedd pwysau i ddychwelyd i'r swyddfeydd ac os bydd modd gwneud swydd o gartref yn effeithiol, ni fyddai gorfodaeth i newid.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn y wybodaeth**
**Cefnogi'r gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol**

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2020/2021

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn mynegi barn Archwilio Mewnol ar amgylchedd rheolaethol gyffredinol o fewn yr Awdurdod yn ystod 2020/21 gan ddarparu cyfryw farn archwilio mewnol blynyddol i'r Awdurdod. Nodwyd na all sicrwydd fyth fod yn llwyr ac y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

Adroddwyd bod dyfodiad pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar yr awdurdod yn ei gyfanrwydd ac ar waith Archwilio Mewnol. Mynegwyd nad oedd modd i Archwilio Mewnol gynnal gwaith yn chwarter cyntaf y flwyddyn, ac ar gais y Pennaeth Cyllid, cafodd rhai swyddogion o'r gwasanaeth eu hadleoli i gynorthwyo a chefnogi'r Cyngor drwy wirio a phrosesu Grantiau Llywodraeth Cymru i Fusnesau a weinyddwyd gan y Gwasanaeth Refeniw. Treuliwyd cyfanswm o 146 diwrnod ar y gwaith hwn. Yn ogystal, bu i swyddogion Archwilio Mewnol hefyd gynorthwyo'r Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu, sef gwasanaeth a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru gyda 120 diwrnod wedi eu treulio ar y gwaith yma.

Cyflwynwyd rhaglen waith ddiwygiedig o waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2020/2021 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2020. Roedd y cynllun archwilio blynyddol yn llawer mwy hyblyg na'r arfer o ganlyniad i effaith y pandemig ar y sefydliad. Adnabuwyd blaenoriaethau archwilio newydd mewn ymateb i risgiau newydd a newidiadau yn sgil effaith Covid-19. Bu i archwiliadau o'r cynllun addasedig gael eu cwblhau o fewn cyfnod heriol gyda ffocws yr archwiliadau ar drefniadau yn sgil y pandemig ac archwiliadau statudol megis grantiau. Cynhaliwyd nifer isel o archwiliadau yn ystod 2020/2021 o gymahru a'r blynyddoedd blaenorol a hynny oherwydd amgylchiadau digynsail o anghyffredin. Ystyriwyd hynny yn eithriad eleni a defnyddiwyd tystiolaeth a ddarparwyd gan reoleiddwyr allanol i gefnogi'r farn am y flwyddyn.

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor a archwiliwyd.
- Bod holl adrannau'r Cyngor wedi adeiladu ar waith blaenorol, gan barhau i ddatblygu eu cyfundrefnau rheoli risg. Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 30 Tachwedd 2020 i ddiweddaru am ddatblygiadau i'r trefniadau rheoli risg, y camau gweithredu nesaf, ac ystyried os oedd yr ymateb yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn Llythyr yr Archwiliwr
- Bod 23 risg llywodraethu wedi cael eu hadnabod yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael eu hasesu'n barhaus gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu.
- Ble darganfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, a sylw'r Gweithgor Gwella Rheolaethau.
- Bod yr Awdurdod wedi derbyn nifer o adroddiadau gan reoleiddwyr yn ystod 2020/2021:

Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2020/2021, ystyriwyd bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/2021 yn gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Roedd 23 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig

terfynol 2020/2021. Cafodd 19 o aseiniadau eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2021, sy'n cynrychioli 82.61% o'r cynllun. O'r adroddiadau perthnasol o gynllun archwilio 2020/2021 a dderbyniodd lefel sicrwydd, derbyniodd 100% ohonynt lefel sicrwydd "Digonol" neu "Uchel.

Ers 1 Ebrill 2021, roedd 7 aelod llawn amser i'r Tîm Archwilio Mewnol ac un Uwch Archwiliwr Dros Dro. Nodwyd bod arian wedi ei neilltuo i ariannu'r adnodd ychwanegol i'r Gwasanaeth weithredu archwiliadau pan fydd cyfyngiadau'r argyfwng yn llacio, fel yr adroddwyd gan y Pennaeth Cyllid i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 11 Chwefror 2021.

Nodwyd gwerthfawrogiad o waith y Rheolwr Archwilio.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn y wybodaeth**

**11. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2020/21**

Cyflwynwyd y datganiad gan Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg. Eglurodd bod y datganiad, er nad yn rhan o'r cyfrifon, yn ddogfen statudol ac angen ei chyhoeddi gyda'r cyfrifon. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon Archwilio (Cymru) a Chod ymarfer CIPFA mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau bod datganiad o reolaeth fewnol yn ei le. Adroddwyd mai'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor sydd yn arwyddo'r datganiad er bod angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Rhoddwyd ychydig o gefndir i'r datganiad gan nodi bod dyletswydd ar bob Awdurdod Lleol i gyflwyno datganiad blynyddol ac er yn wahanol o ran fformat neu ddull mae eu cynnwys yn debyg iawn. Yng Ngwynedd, y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, o dan arweiniad y Prif Weithredwr sydd yn adolygu'r gofrestr risg. Bydd y grŵp yn trafod risgiau mewn 23 o feysydd llywodraethu gwahanol, gan nodi'r rheolaethau sydd gan y Cyngor yn eu lle er mwyn lliniaru'r risgiau hynny. Caiff hyn ei wneud mewn ymateb i fframwaith CIPFA sydd yn adnabod egwyddorion craidd ar gyfer llywodraethu da.
Amlygwyd bod risg newydd wedi cael ei ychwanegu yn ystod 2021/21, sef 'Trefniadau a gweithredu annigonol gan Wasanaethau'r Cyngor i reoli rigiau iechyd a diogelwch yn effeithiol'. Ategwyd bod y risg yma yn wreiddiol wedi ei gynnwys o fewn y risg mwy cyffredinol 'Trefniadau Rheoli Risg', ond ystyriwyd bod Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn cyflwyno risgiau unigryw ac o ganlyniad y byddai'n briodol i'r maes gael sylw penodol o fewn y gofrestr risg llywodraethu.

Adroddwyd bod y Grŵp wedi dod i gasgliad bod 0 maes gyda risgiau uchel iawn, 2 faes risgiau uchel, 12 maes risgiau canolig a 9 maes risgiau isel. Nodwyd mai'r meysydd risg uchel oedd 'Diwylliant' a'r risg newydd 'Iechyd, Diogelwch a Llesiant'.

Tynnwyd sylw hefyd at newid mewn sgôr risg 'gwendidau wrth reoli arian cyhoeddus' sydd yn golygu nad yw cyllid y Cyngor yn cael ei ddefnyddio at ei flaenoriaethau. Addaswyd y sgôr oherwydd, er bod trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor yn parhau'n gryf, mae'r sgôr tebygolrwydd wedi newid i 3 gan fod cynlluniau arbedion bellach am fod y anoddach i'w gwireddu.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod angen mwy o wybodaeth am y tîm newydd a sefydlwyd ar gyfer cryfhau'r gefnogaeth i drefniadau Craffu
- Angen ystyried risg i asedau eiddo'r Cyngor - hyn yn debygol o gynyddu o ganlyniad i staff y Cyngor yn gweithio o adre a swyddfeydd yn wag

Mewn ymateb i gais am fwy o wybodaeth am drefniadau rheoli CCTV amlygwyd bod cynllun gwybodaeth newydd wedi ei sefydlu gan Cefnogaeth Gorfforaethol mewn ymateb i adnabod risg o warchod / diogelu data sydd yn ymddangos ar CCTV. Nodwyd bod bwriad i sicrhau bod y wybodaeth sydd yn cael ei ddal ar CCTV yn cael ei ystyried fel 'data' ac o ganlyniad yn cael ei reoli drwy ganllawiau rheoli data.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad**
**Cymeradwyo'r datganiad**
**Argymell bod Arweinydd y Cyngor a Prif Weithredwr y Cyngor yn ei arwyddo**

## 12. CYFRIFON TERFYNOL 2020/21 - ALLDRO REFENIW

Amlygodd yr Aelod Cabinet Cyllid bod yr adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Cabinet 18 Mai 2021 a bod y Cabinet wedi cymeradwyo'r holl argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol.

Gosodwyd y cyd-destun ac ymhelaethwyd ar gynnwys yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid. Cyfeiriwyd at grynodeb o'r sefyllfa fesul adran oedd yn amlygu'r symiau i'w cario ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn ynghyd a'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol. Amlygwyd,

- Bod effaith ariannol Covid19 yn sylweddol i'r Cyngor. Gyda dros £20 miliwn wedi ei hawlio o'r gronfa caledi a ffyrlo erbyn diwedd y flwyddyn, oedd yn gyfuniad o gostau ychwanegol o £11.6 miliwn, colledion incwm o £7.3 miliwn a £1.5 miliwn ffyrlo.
- O ganlyniad i dderbyn nifer o grantiau sylweddol eraill cysylltiedig â Covid-19 yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, amlygwyd bod sefyllfa ariannol 2020/21 wedi ei drawsnewid erbyn diwedd y flwyddyn, gyda'r grantiau yn cynnwys grantiau i gyllidebau ysgolion, ar gyfer trawsnewid digidol, diffyg gwireddu arbedion ac ôl groniad Treth Cyngor.
- Bod 5 adran ar ddiwedd y flwyddyn yn gorwario cyn dyrannu grantiau digolledu am Covid19 gan Lywodraeth Cymru, gan adael dim ond un adran yn gorwario yn derfynol, sef Adran Plant a Theuluoedd.
- Pwysau sylweddol yn wynebu'r Adran Plant a Theuluoedd, ond lleihad yn y gorwariant i £1.3 miliwn yn dilyn dileu £688k o arbedion nad oedd modd eu gwireddu a derbyniad grant covid.
- Bod gwelliant sylweddol yn sefyllfa'r Adran Oedolion - gwerth £1 miliwn o arbedion nad oedd modd eu cyflawni wedi eu dileu a'u llithro yn ogystal â derbyniad grantiau cyffredinol ym misoedd olaf y flwyddyn.
- Bod cynnydd yn sefyllfa ariannol Priffyrdd a Bwrdeistrefol oedd yn gyfuniad o gwtogi ar wariant, derbyniadau grant covid a grantiau cyffredinol a dileu arbedion. Y maes gwastraff, yn parhau i fod yn bryder gyda'r adran wedi wynebu costau ychwanegol sylweddol yn

ymwneud â chydymffurfio gyda chanllawiau covid 19. Nodwyd hefyd golledion incwm yn y maes gwastraff masnachol, oedd yn ei gyfanrwydd werth £2.4 miliwn am flwyddyn.
- Bod nifer o resymau tanwariant un-tro ar nifer o benawdau Corfforaethol
- Bod balansau'r ysgolion wedi cynyddu o £4.3 miliwn yn 2019/20 i £10.7 miliwn yn 2020/21 yn sgil effaith Covid19 a derbyniad grantiau amrywiol.
- Bod adolygiad digonolrwydd cronfeydd penodol y Cyngor wrth gau'r cyfrifon, lle llwyddwyd i gynaeafu £170 mil o adnoddau.

Cyfeiriwyd at benderfyniad y Cabinet i,
- nodi sefyllfa'r adrannau ar ddiwedd 2020/21 a chymeradwyo'r symiau i'w cario ymlaen
- cymeradwyo'r holl argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol

Adroddwyd bod y datganiadau ariannol statudol 2020/21 wrthi'n cael eu cwblhau gyda'r bwriad o'u cyflwyno i'r Archwilwyr cyn y dyddiad statudol o 31 Mai 2021. Ategwyd y byddai'r cyfrifon yn cael eu harchwilio dros yr haf gan Archwilio Cymru ac nid gan gwmni Deloitte fel y gwelwyd yn y gorffennol.

Ategodd y Pennaeth Cyllid bod grantiau wedi rhoi hwb ariannol sylweddol i'r sefyllfa sydd bellach yn cyfleu sefyllfa iach a chadarn. Er gwaethaf y gost, sicrhawyd diogelwch trigolion Gwynedd yn ystod y pandemig drwy ariannu gwasanaethau a sefyllfaoedd heb sicrwydd grantiau. Ategwyd bod yr arian yn cael ei 'barcio' yn y gronfa trawsffurfio am y tro ac y byddai ceisiadau am yr arian i'w gwneud yn y drefn arferol.

Diolchwyd i'r staff am eu gwaith trylwyr a'u hyblygrwydd dros y cyfnod heriol

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad**
**Nodi'r risgiau perthnasol**
**Cefnogi penderfyniad y Cabinet (18 Mai 2021)**

## 13. RHAGLEN GYFALAF 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2021)

Amlygodd y Uwch Reolwr Cyllid mai prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (sefyllfa 31 Mawrth 2021), a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Cyfeiriwyd at ddadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £114.6 miliwn am y 3 blynedd 2020/21 - 2022/23 ynghyd a'r ffynonellau sydd ar gael i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £11.0 miliwn ers yr adolygiad diwethaf.

Prif gasgliadau adolygiad oedd bod y Cyngor wedi llwyddo i wario £27.7m yn 2020/21 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £18.2m (66%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol.

Adroddwyd bod effaith argyfwng Covid19 a'r cyfnod clo ar y rhaglen gyfalaf yn amlwg ac yn ychwanegol i'r £14.1m a adroddwyd arno yn yr adolygiadau blaenorol, roedd £19.3m pellach o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2020/21 i 2021/22, gyda'r prif gynlluniau yn cynnwys:
- £4.5 miliwn Cynlluniau Ysgolion Ganrif 21

- £3.3 miliwn Adnewyddu Cerbydau.
- Grant hwyr o £2.2 miliwn ar Gynnal a Chadw Ysgolion a gyrhaeddodd ym mis Mawrth 2021, gyda'r hawl penodol gan Lywodraeth Cymru i ddisodli ariannu cyfredol a'i lithro i'r flwyddyn ganlynol.
- £1.7 miliwn Cynllun Cei Aberdyfi.

Yn ogystal, llwyddodd y Cyngor ddenu grantiau pellach ers yr adolygiad diwethaf oedd yn cynnwys;

- £7.2 miliwn - Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a Llwybrau Diogel - caniatâd llithro'r mwyafrif i 21/22.
- £2.2 miliwn - Grant Cynnal a Chadw Ysgolion 20/21 sy'n caniatáu disodli ariannu cyfredol i'w wario yn 21/22.
- £0.6 miliwn - Grant Tai Arloesol - Cartrefi Clyd (Podiau) i gynorthwyo gyda lleihau digartrefedd.
- £0.5 miliwn - Grant Cronfa Gofal Canolraddol – addasiadau sefydliadau oedolion a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill yn y maes gofal.

Penderfynodd y Cabinet (18 Mai 2021) i dderbyn yr holl argymhellion oedd yn cynnwys:

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2021) o'r rhaglen gyfalaf.
- Nodi'r gwariant o £27,667,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21, fydd yn cael ei ddefnyddio yn y datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2020/21.
- Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynwyd sef:
  - Cynnydd yn y defnydd o
    - £3 mil o fenthyca
    - £10.561 miliwn yn y grantiau a chyfraniadau
    - £234 mil o gyfraniadau refeniw
    - £200 mil o gronfeydd adnewyddu ac eraill

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad**
**Nodi'r risgiau perthnasol**
**Cefnogi penderfyniad y Cabinet (18 Mai 2021)**

## 14. CYFRIFON TERFYNOL HARBYRAU GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid. Eglurwyd, yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbyrau Abermaw, Aberdyfi, Pwllheli a Porthmadog. Gyda throsiant yr harbyrau yn is na £2.5m,ystyriwyd i fod yn gorff llywodraeth leol llai o faint ac felly mae cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol.

Cyfeiriwyd at y cyfrif incwm a gwawriant, ac amlygwyd £5,208 o orwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Adroddwyd, bod ardrawiad covid-19 a'r cyfnod clo cysylltiedig wedi effeithio lefelau incwm yr Harbyrau sydd yn llawer llai na'r targed incwm eleni. Er hynny, adroddwyd bod tanwariant ar staffio, cynnal a

chadw ayyb wedi lleddfu rhywfaint ar y sefyllfa.

Tynnwyd sylw at ffurflen safonol yr archwilwyr allanol ynghyd a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sydd yn sicrhau system rheolaeth fewnol gadarn. Amlygwyd bod y cyfrifon eisoes wedi bod yn destun archwiliad Mewnol a bellach wedi eu cyflwyno i'r archwilwyr allanol sef Archwilwyr Allanol Archwilio Cymru. Ategwyd mai dim ond os bydd angen gweithredu newidiadau yn dilyn archwiliad y bydd fersiwn ddiwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Hydref.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad**
**Cymeradwyo'r Cyfrifon:**
- **Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2020 / 21**
- **Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021, yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru**

**Argymell bod y Cadeirydd yn arwyddo'r ffurflen yn electroneg**

## 15. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2021/22

Cyflwynwyd cynllun o waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2021/22 gan y Rheolwr Archwilio. Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'r cynllun Archwilio Mewnol yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes ynghyd ag ystyried effeithiau sylweddol a chyflym pandemig COVID-19 ar y Cyngor. Er mwyn sicrhau bod rheolaethau allweddol y Cyngor a'r materion cywir yn cael eu hadolygu, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gofrestr Risg Corfforaethol, Cynllun Cyngor Gwynedd ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol sydd ar waith. O ganlyniad, paratowyd cynllun cychwynnol gyda hyblygrwydd fyddai'n rhoi sylw i unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg a newidiadau i risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor a hefyd sicrhau iechyd a diogelwch swyddogion Archwilio Mewnol a chleientiaid. Trafodwyd y cynllun cychwynnol gyda phob Pennaeth Gwasanaeth lle bu cyfle i fireinio'r cynllun ymhellach, cyn paratoi'r Cynllun terfynol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Nodwyd bod Cynllun Archwilio 2021/2022 yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canlynol:

- bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gall twyll neu lygredigaeth ddigwydd - manteisio ar y Fenter Twyll Cenedlaethol a chynnal gwaith Atal Twyll Rhagweithiol
- parhau i roi sylw i grantiau penodol, yn enwedig lle mae amodau'r grant yn disgwyl adolygiad gan Archwilio Mewnol.
- I sicrhau hyblygrwydd, bydd Archwilio Mewnol yn defnyddio methodoleg AGILE ble bo hynny'n bosibl. Prif amcanion cymhwyso egwyddorion AGILE yw:
    - Gwella ansawdd archwilio
    - Cylchoedd archwilio byr
    - Cynnydd mewn rhyngweithio â chleientiaid
    - Darparu mewnwelediadau

(Nodwyd bod Agile yn darparu modd hyblyg a dynamig i Gynllunio Archwilio Mewnol o ganlyniad i fonitro risg yn barhaus).

Rhagwelwyd y byddai oddeutu 715 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau cynllun archwilio 2021/22. Dadansoddwyd yr adnoddau staffio sydd

ar gael, gan ystyried cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau "di-gynnyrch" megis gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd.

Manylwyd ar fwriad a rheswm rhai o'r archwiliadau fel bod yr aelodau yn cael rhagflas o gynnwys y cynllun archwilio

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynnwys diogelwch seiber ( a adnabuwyd fel maes blaenoriaeth mewn gweithdy diweddar) ar y rhaglen waith, nodwyd bod archwiliad i ddiogelwch systemau TG wedi ei adnabod. Er hynny, amlygwyd bod cwmni allanol yn paratoi adroddiadau trylwyr proffesiynol ar ddiogelwch seiber a bod yr adroddiadau hynny yn cael eu cyflwyno i'r Gwasanaeth Archwilio. Ategwyd bod rhain yn drefniadau cadarn ac i raddau ni fuasai'r Gwasanaeth Archwilio yn gallu ategu at yr hyn mae'r cwmni allanol yn ei wneud. Adroddwyd bod eitem 'Gwydnwch Systemau TG - Diogelwch Seiber' wedi ei gynnwys fel eitem i'w graffu yng nghyfarfod 15 Gorffennaf o'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â mesurau diogelu rhyddid a'r bwriad o archwilio trefniadau newydd sydd yn disodli DoLS ac os byddai'r trefniadau newydd hyn yn well i'r Cyngor ynteu i'r unigolion, nodwyd bod hwn yn archwiliad ar gais Pennaeth Oedolion , Iechyd a Llesiant sydd wedi argymell bod y Gwasaneth Archwilio yn edrych ar y drefn newydd i sicrhau trefniadau cadarn o ganlyniad i broblemau yn y gorffennol.

Mewn ymateb i sylw fod effaith covid 19 yn bellgyrhaeddol ac os oes gan yr Adran Addysg y capasiti i fynd ar afael ar effeithiau, nodwyd nad oedd ystyriaeth wedi ei roi i'r mater ond nodwyd bwriad i drafod ymhellach gyda'r Pennaeth Addysg. Pwysleisiwyd bod cyfraniad seicolegwyr ysgolion yn hanfodol i asesu'r effaith.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau i staff o weithio o adre nodwyd bod modd i staff hawlio lwfans gan yr HMRC (cyfrifoldeb yr unigolyn fyddai gwneud hyn - y wybodaeth wedi ei gylchredeg). Nodwyd hefyd bod modd gwneud cais am daliad uwch ond byddai angen cyflwyno biliau fel tystiolaeth.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad**
**Cymeradwyo'r Cynllun**

## 16. ARCHWILIO CYMRU CYNLLUN ARCHWILIO 2021 CYNGOR GWYNEDD

Croesawyd Alan Hughes ac Yvonne Thomas i'r cyfarfod. Cyflwynwyd cynllun Archwilio Cymru ar gyfer 2021 yn nodi'r gwaith y maent yn fwriadau eu gwneud yn ystod y flwyddyn yn unol â'r cyfrifoldeb statudol sydd ganddynt fel archwilwyr allanol. Cyfeiriwyd at yr angen i archwilio datganiadau ariannol a'r risgiau sydd ynghlwm (sydd yn risgiau sydd yn ymddangos i bob Cyngor mwyn neu lai). Cyfeiriwyd at gynnwys y rhaglen archwilio perfformiad gan gynnig braslun o'r gwaith sydd i'w gyflawni ar amserlen bwriadedig.

Diolchwyd am yr adroddiad a mynegwyd parodrwydd i gydweithio.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad**

## 17. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cynorthwyol (Refeniw a Risg) yn rhoi amlinelliad o raglen waith y pwyllgor am y flwyddyn hyd at Chwefror, 2022. Amlygwyd bod y blaen raglen wedi ei llunio o gwmpas eitemau sefydlog ynghyd ag ambell eitem craffu wedi ei gynnwys. Ategwyd bod y rhaglen yn rhaglen fyw a bod posib i'r amserlen newid.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 12.35 y.h.

**CADEIRYDD**